# Cofio cyfraniad arloesol Elisabeth James i'r Cyngor Ysgolion Sul




Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mrs Elisabeth James, Aberystwyth, ychydig ddyddiau cyn y Nadolig. Elisabeth oedd ein Llywydd Anrhydeddus fel Cyngor ers dros 25 mlynedd, a bu'n aelod gweithredol o'r Cyngor am dros 50 mlynedd, gan gamu i'r swydd y bu i'w phriod, Dan Lynn James, ei llenwi cyn hynny.

Bu Dan ac Elisabeth yn arloeswyr ym maes datblygu a chreu gwerslyfrau i blant ac ieuenctid ysgolion Sul Cymru, gan ysgrifennu a golygu cyfresi di-ri o lyfrau a gafodd eu defnyddio gan genedlaethau o blant. Cyhoeddwyd y gwerslyfrau cyntaf ganddynt ddechrau'r saithdegau, ac ar y pryd, gydag ysgolion Sul yn eu bri, roedd degau o filoedd o lyfrau yn cael eu hargraffu. Bu Elisabeth yn olygydd cyffredinol i gyfres gwerslyfrau Gyda'n Gilydd, a gyhoeddwyd ganol y nawdegau, a hyd yn oed bryd hynny argraffwyd 15,000 o lyfrau yn flynyddol. Tybed faint o blant Cymru a ddysgodd am storïau'r Beibl a'r hanes am Iesu trwy waith Elisabeth dros gyfnod o dros 30 mlynedd?

Bu Elisabeth hithau yn awdur, yn gyfieithydd ac yn olygydd ffyddlon i Gyhoeddiadau'r Gair am flynyddoedd wedi hynny, gan baratoi gwerslyfrau a nifer o Feiblau lliw a llyfrau darllen i blant. Yn nyddiau cynnar y wasg fyddai dim yn mynd at yr argraffwyr heb i Elisabeth sicrhau bod pob gair yn ei le, a'r testun oll yn ffyddlon i'r Beibl. Roedd ei brwdfrydedd a'i sêl dros waith y deyrnas bob amser yn heintus, a diolchwn am ei chyfraniad i fywyd ysbrydol ein cenedl. Gwnaeth ymdrech i geisio pontio ac uno pobl o draddodiadau, safbwyntiau ac ieithoedd gwahanol, gan roi Iesu yn y canol bob amser. Roedd yn weddïwraig ffyddlon a thriw, ac yn cofio am waith cynifer o fudiadau Cristnogol yn y gweddïau hynny.

Yn bersonol, mae gen i atgofion i'w trysori o dreulio amser ar yr aelwyd ym Mronallt wedi ymgolli ynghanol proflenni, wrth iddi gywiro a chynghori, a'r sgwrs bob amser yn fendithiol. Roedd croeso ar yr aelwyd bob amser, gyda chinio neu swper yn rhan o'r croeso hwnnw. Diolchwn i Dduw amdani, ac am ei ffydd gadarn a fu'n angor iddi gydol ei hoes.

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Bethan, Gwenno, Dafydd a'r teulu oll yn eu hiraeth. Cynhelir ei hangladd yn Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth, ddydd Sadwrn, 13 Ionawr, am 11.30 o'r gloch.

Ei dymuniad oedd bod unrhyw roddion er cof amdani yn mynd at waith y Cyngor Ysgolion Sul, a diolchwn am y cyfle i gydweithio â'r teulu i wireddu hynny. Byddwn yn rhannu dolen yn fuan lle gall pawb sy'n dymuno gyfrannu ar lein yn ogystal. Bydd cronfa yn cael ei sefydlu i wireddu project arbennig er cof am Elisabeth.

*Aled Davies*
*Cyfarwyddwr Cyngor Ysgolion Sul Cymru*




